

Diolch am ysbrydoliaeth

Diolch! Gair bach a grymus a gair a glywyd dro ar ôl tro yn ystod ymweliad Côr Synod Mizoram â Chapel y Morfa. Taith funud olaf oedd y daith oherwydd trafferthion gweinyddol yn bennaf ac roedd y daith yn dilyn gwahoddiad gan Gôr CF1 i gystadlu yng Ngŵyl Gorawl Rhyngwladol Caerdydd. I bobl sy'n gwerthfawrogi ac yn mwynhau canu corawl, mae safon Côr y Synod yn anhygoel o uchel. Yn wir dyma gantorion mwyaf proffesiynol y Synod a chafwyd blas o hynny drwy gydol eu perfformiad. Canwyd emynau a gweithiau corawl yn eu hiaith frodorol a thrwy gyfrwng y Gymraeg ac roedd eu datganiad o'r ddau emyn cyfarwydd: "Diolch i ti, yr hollalluog Dduw" a "Nid wy'n gofyn bywyd moethus" yn wefreiddiol.

Ond mae yna agwedd arall i'w bodolaeth fel côr ac yn arbennig felly wrth ymweld â Chymru. Drwy gyfrwng eu gallu cerddorol maen nhw am rannu'r Efengyl gyda ni yn ogystal â'u diolchgarwch i ni fel cenedl. Mae hanes cenhadaeth dramor Eglwys Bresbyteraidd Cymru yn gyfarwydd, ac yn arbennig felly y Genhadaeth yng ngogledd-ddwyrain India. Yn dilyn y gwaith ym Mryniau Casia, sefydlwyd yr eglwys Mizo gyntaf yn 1897, yn Aizawl, gan ddatblygu gwaith addysgol, meddygol ac eglwysig a roddodd fod i eglwys sydd bellach yn cynnwys dros chwe chan mil o aelodau a 560 o weinidogion.

Y duedd gynyddol erbyn hyn yw cwestiynu'r math yma o weithgaredd eglwysig gan ei gysylltu â gwendidau Imperialaeth yn gorfodi crefydd ar gymunedau gan ddileu'r diwylliant brodorol. Ym myd diwinyddiaeth genhadol, yr hyn a elwir yn "Missiology", fe ddywedir bod cenhadaeth Eglwys Bresbyteraidd Cymru yn esiampl o'r gallu i blethu diwylliant brodorol gyda Christnogaeth a phetai digon o ofod yn adeilad y Morfa, yna fe fyddem wedi gweld y côr yn dawnsio dawns draddodiadol y "Bambŵ"! Byddai'n werth ichi edrych ar YouTube.

Ond mae'r feirniadaeth yn mynd yn bellach na hynny ac yn cyfeirio at haerllugrwydd cenedl yn gorfodi ei diwylliant a'i



chrefydd ar genedl arall. Mewn cymdeithas ôl-Gristnogol mae safbwynt o'r fath yn rhywbeth naturiol ac yn aml iawn yn adlewyrchiad o ragfarn a diffyg dealltwriaeth; persbectif edrych i mewn heb sylweddoli fod y llinyn mesur cywir i'w ddarganfod ym mywyd yr amrywiol eglwysi sydd wedi dod i fod trwy weithgaredd cyffredinol yr Eglwys Gristnogol. Yng ngeiriau un o weinidogion Bryniau Casia, "Gadewch i ni feirniadu!" ac fe adleisiwyd hynny ymhellach yn anerchiad Llywydd Synod Mizoram ar y noson wrth iddo olrhain y newid a ddigwyddodd – o fywyd â'i bwyslais ar ladd a dial a hela pennau i ofal iechyd cyffredinol, i ysgolion a phrosiectau cymdeithasol sydd ymhlith y rhai gorau yn India. A'r cyfan yn deillio o fywyd newydd yng Nghrist. "Gadewch i ni feirniadu!"

Ar ddiwedd y chwedegau fe newidiodd pethau a gyda'r penderfyniad i ymuno â CWM (Cyngor Cenhadaeth Fyd-Eang), cafwyd newid pwyslais. Gwelwyd y genhadaeth nid yn nhermau

'gyrru allan' ond yn hytrach yn nhermau 'gwahodd', ac o ganlyniad y teimlad o gydweithio. Mae'r berthynas agos yn parhau ac roedd ymweliad y côr yn tanlinellu hynny, gyda'r cysur hefyd eu bod yn gweddio'n ddyddiol dros Gymru a'i phobl – a ninnau yng nghwlwm undod yn gweddio drostynt hwythau.

Yn y cyfnod wedi'r Pasg a chyn y Pentecost fe elwir arnom i feddwl am yr Eglwys yn fyd-eang ond yn arbennig felly yn ein gwlad. Mewn dyddiau gwahanol, mae'r alwad i geisio cymdeithas Gristnogol, i ddeall o'r newydd beth yw ystyr cymod ac i ddal ar bob cyfle i dystio gyda'n gilydd.

Diolch i Gôr Mizoram am ein hysbrydoli.

Eifion Roberts,

o Perthyn, cylchgrawn Capel y Morfa, Aberystwyth



Y Côr yn llawenhau gyda Mrs Margaret Jones a fu'n gweithio yn yr India